IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 7 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Murphy |

20 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

21 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - COFFI CO, WATKISS WAY

Ymgeiswyr: Justin Carty and Sophia Williams

<u>Y Cais</u>

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Coffi Co (Cardiff) Ltd mewn perthynas â Coffi Co, Llawr Isaf, Uned Fasnachol 2, Bayscape, Marina Caerdydd, Ffordd Watkiss, Caerdydd.

Ymgeisiodd yr ymgeisydd am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle
2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio (tu fewn)
3. Darparu lluniaeth hwyr y nos (dan do)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Siop Goffi Coffi Co ar lawr isaf uned fasnachol fflatiau newydd Bayscape ym Marina Caerdydd. Mae'r safle wedi'i adeiladu o goncrit arferol, ac mae mewn ardal sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cartrefi, hamdden a thwristiaeth. Gwerthu coffi a bwyd fydd y busnes ran fwyaf, ond bydd hefyd yn gwerthu diodydd alcoholig arbenigol a chrefft, rhwng yr oriau masnachu penodol arferol i'w hyfed ar y safle'n unig. Rhagwelir y bydd y refeniw o werthu alcohol yn llai na 20% o'r gwerthiant i gyd.

(3) Cynigir yr oriau agor canlynol:

Dydd Llun i ddydd Mercher: 08:00 tan 21:00
Dydd Iau i ddydd Sul: 08:00 tan 23:00
Ar ddyddiau Sul cyn Gwyliau Banc: 08:00 tan 00:00
Noswyl Nadolig: 08:00 tan 00:00
Nos Galan: 08:00 tan 00:00

(4) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

1. Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

   Dydd Llun i ddydd Mercher: 08:00 tan 21:00
   Dydd Iau i ddydd Sul: 08:00 tan 23:00
   Ar ddyddiau Sul cyn Gwyliau Banc: 08:00 tan 00:00
   Noswyl Nadolig: 08:00 tan 00:00
   Nos Galan: 08:00 tan 00:00

2. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw (dan do)

   Noswyl Nadolig: 13:00 tan 00:00
   Nos Galan: 13:00 tan 00:00

3. Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do)

   Ar ddyddiau Sul cyn Gwyliau Banc: 13:00 tan 00:00
   Noswyl Nadolig: 13:00 tan 00:00
   Nos Galan: 13:00 tan 00:00

4. Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):

   Dydd Llun i ddydd Mercher: 08:00 tan 21:00
   Dydd Iau i ddydd Sul: 08:00 tan 23:00
   Ar ddyddiau Sul cyn Gwyliau Banc: 08:00 tan 00:00
   Noswyl Nadolig: 08:00 tan 00:00
   Nos Galan: 08:00 tan 00:00

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru. Byddai'r cais felly'n cael ei ddiwygio'n briodol.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i ymateb i'r pryderon a amlinellwyd yn y gwrthwynebiad ysgrifenedig. Dywedodd Justin Carty wrth yr Aelodau bod Coffi Co yn arbenigo ar ddatblygu brand sy'n ceisio cynnig siopau coffi o safon uchel mewn lleoliadau hamdden. Mae'r safleoedd hyn wedi'u hanelu at deuluoedd. Mae alcohol yn cael ei werthu'n gyfrifol a'r pris yn adlewyrchu hynny. Amcangyfrifwyd y byddai alcohol yn gyfystyr â thua 15% o werthiant.

Aeth Mr Carty a Ms Williams i'r afael â phryderon y gwrthwynebwyr. Dywedodd Ms Williams bod yr hysbysiad yn rhoi gwybodaeth am y cais wedi'i arddangos yn gywir. Dywedodd Claire Hartrey bod adran Drwyddedu Cyngor Caerdydd yn fodlon bod yr hysbysiad wedi'i arddangos yn gywir. Dywedodd Mr Carty mai gweini bwyd yw prif nod y busnes, a bod ganddo gegin fasnachol â'r cyfleusterau i gyd. Gosodwyd llen acwstig rhwng safle'r busnes a'r fflatiau oddi uchod. Rhoddwyd pris uwch ar y diodydd yn fwriadol. Mae Coffi Co wedi bod yn ceisio gweithio mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Rafftio Dŵr Gwyn. Cefnogwyd y parti lansio yn ddiweddar gan drigolion lleol. Rodd Mr Carty yn ystyried bod busnesau newydd yn allweddol i'r economi leol.

Cyflwynodd yr ymgeiswyr ffotograffau o eiddo tebyg sydd ganddynt ym Mhorthcawl, sy'n denu amrywiaeth eang o gwsmeriaid, ac sy'n croesawu teuluoedd.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

22 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Dim eitemau brys

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am